OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1058

# Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017

## RHAN 3 - Yr isafswm cyflog amaethyddol

### Cyfraddau tâl isaf

**12.**—(1) Yn ddarostyngedig i weithrediad adran 1 o Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998(**1**), rhaid i weithwyr amaethyddol gael eu talu gan eu cyflogwr mewn cysylltiad â'u gwaith yn ôl cyfradd nad yw'n llai na'r isafswm cyflog amaethyddol.

(2) Yr isafswm cyflog amaethyddol yw'r gyfradd isaf fesul awr a bennir yn y Tabl yn Atodlen 4 fel y gyfradd sy'n gymwys i bob gradd o weithiwr amaethyddol ac i brentisiaid.

### Cyfraddau tâl isaf am oramser

**13.** Rhaid i weithwyr amaethyddol gael eu talu gan eu cyflogwr mewn cysylltiad â goramser a weithir yn ôl cyfradd nad yw'n llai nag 1.5 gwaith yr isafswm cyflog amaethyddol a bennir yn erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn ac Atodlen 4 iddo sy'n gymwys i'w radd neu i'w gategori.

### Cyfraddau tâl isaf am waith allbwn

**14.** Rhaid i weithwyr amaethyddol gael eu talu gan eu cyflogwr mewn cysylltiad â gwaith allbwn yn ôl cyfradd nad yw'n llai na'r isafswm cyflog amaethyddol a bennir yn erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn ac Atodlen 4 iddo sy'n gymwys i'w radd neu i'w gategori.

### Lwfans gwrthbwyso llety

**15.**—(1) Pan fo cyflogwr, mewn unrhyw wythnos, yn darparu tŷ i weithiwr amaethyddol am y cyfan o'r wythnos honno, caiff y cyflogwr dynnu'r swm o £1.50 oddi ar isafswm cyflog y gweithiwr amaethyddol sy'n daladwy o dan erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn ar gyfer yr wythnos honno.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), pan fo cyflogwr, mewn unrhyw wythnos, yn darparu llety arall i weithiwr amaethyddol, caiff y cyflogwr dynnu'r swm o £4.82 oddi ar isafswm cyflog y gweithiwr amaethyddol sy'n daladwy o dan erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn am bob diwrnod yn yr wythnos y darperir y llety arall i'r gweithiwr.

(3) Dim ond pan fo'r gweithiwr amaethyddol wedi gweithio o leiaf 15 awr yn ystod yr wythnos honno y caniateir i'r didyniad ym mharagraff (2) gael ei wneud.

(4) Rhaid i unrhyw amser yn ystod yr wythnos honno pan fo'r gweithiwr amaethyddol ar wyliau blynyddol neu absenoldeb oherwydd profedigaeth gyfrif tuag at y 15 awr hynny.

### Taliadau nad ydynt yn ffurfio rhan o dâl gweithiwr amaethyddol

**16.** Nid yw'r lwfansau a'r taliadau a ganlyn yn ffurfio rhan o dâl gweithiwr amaethyddol—

(**1**) 1998 p. 39.

(a) lwfans cŵn o £7.72 y ci i'w dalu'n wythnosol pan fo'i gyflogwr yn ei gwneud yn ofynnol i weithiwr amaethyddol gadw un neu ragor o gŵn;

(b) lwfans ar alwad o swm sy'n cyfateb i ddwy waith y gyfradd goramser fesul awr a nodir yn erthygl 13 o'r Gorchymyn hwn;

(c) lwfans gwaith nos o £1.46 am bob awr o waith nos; a

(d) grant geni a mabwysiadu o £60.72 am bob plentyn.

**Costau hyfforddi**

**17.**—(1) Pan fo gweithiwr amaethyddol yn mynd ar gwrs hyfforddi gyda chytundeb ei gyflogwr ymlaen llaw, rhaid i'r cyflogwr dalu—

(a) unrhyw ffioedd am y cwrs; a

(b) unrhyw gostau teithio a llety a ysgwyddir gan y gweithiwr amaethyddol wrth fynd ar y cwrs.

(2) Bernir bod gweithiwr amaethyddol sydd wedi ei gyflogi'n ddi-dor ar Radd 1 gan yr un cyflogwr am ddim llai na 30 wythnos wedi cael cymeradwyaeth ei gyflogwr i ymgymryd â hyfforddiant gyda golwg ar sicrhau'r cymwysterau angenrheidiol y mae'n ofynnol i weithiwr Radd 2 feddu arnynt.

(3) Y cyflogwr sydd i dalu am unrhyw hyfforddiant y mae gweithiwr amaethyddol yn ymgymryd ag ef yn unol â pharagraff (2).